# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 16 Medi 2015

Amser: 13.30

## (283)

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 2-15. Ni ofynnwyd cwestiwn 1. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

Dechreuodd yr eitem am 14.14

Gofynnwyd y 15 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiynau 2 a 9 eu grwpio. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 15.05

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5820 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu at fethiant parhaus Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth digonol i fusnesau Cymru.

2. Yn mynegi pryder dwfn dros golli swyddi mewn busnesau sy'n derbyn cyllid grant gan Lywodraeth Cymru.

3. Yn credu bod y broses o ddiwydrwydd dyladwy a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru cyn darparu cymorth grant ar gyfer busnesau wedi bod yn annigonol.

4. Yn gresynu at fethiant Llywodraeth Cymru i wario arian cyhoeddus yn effeithiol i gefnogi busnesau Cymru.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad cynhwysfawr o'i methiannau o ran cymorth busnes, gan gynnwys ail-flaenoriaethu er mwyn darparu mwy o gefnogaeth i fusnesau bach a chanolig eu maint.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 0 | 41 | 51 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y Gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Dileu pob dim ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi anghenion ariannu busnesau Cymru drwy sefydlu banc datblygu busnes i Gymru.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â baich ardrethi busnes drwy ymestyn y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau cyfleoedd masnach newydd i fusnesau yng Nghymru drwy weithredu menter masnach tramor Plaid Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 0 | 42 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Mewnosod ar ddiwedd pwynt 5:

', gwell mynediad at gyllid a galluogi cymorth a chyngor busnes o ansawdd uchel'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 10 | 26 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gan fod y Cynulliad wedi gwrthod y cynnig heb ei ddiwygio, ac wedi gwrthod y gwelliannau i'r cynnig, gwrthodwyd y cynnig.**

## 4 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 16.05

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5821 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu at fethiant parhaus Llywodraeth Cymru dro ar ôl tro i gyrraedd ei thargedau allweddol ei hun sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau cyhoeddus allweddol; a'r canlyniadau niweidiol a gaiff hyn ar bobl Cymru.

2. Yn credu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ddangos tryloywder llwyr o ran mesur perfformiad gwasanaethau cyhoeddus.

3. Yn ofni bod symud, ailddiffinio neu addasu targedau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau cyhoeddus yn rhwystro pobl Cymru rhag dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif yn ddigonol, ac yn ystumio'r craffu hir-dymor ar ei methiant parhaus.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 11 | 10 | 31 | 52 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y Gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Mewnosod ar ddiwedd pwynt 2:

'gan gynnwys sicrhau bod data yn cael ei gasglu a'i gyhoeddi mewn modd sy'n sicrhau y gellir cymharu perfformiad â chenhedloedd eraill'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5821 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu at fethiant parhaus Llywodraeth Cymru dro ar ôl tro i gyrraedd ei thargedau allweddol ei hun sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau cyhoeddus allweddol; a'r canlyniadau niweidiol a gaiff hyn ar bobl Cymru.

2. Yn credu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ddangos tryloywder llwyr o ran mesur perfformiad gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys sicrhau bod data yn cael ei gasglu a'i gyhoeddi mewn modd sy'n sicrhau y gellir cymharu perfformiad â chenhedloedd eraill.

3. Yn ofni bod symud, ailddiffinio neu addasu targedau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau cyhoeddus yn rhwystro pobl Cymru rhag dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif yn ddigonol, ac yn ystumio'r craffu hir-dymor ar ei methiant parhaus.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 27 | 53 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y cynnig. Felly, gwrthodwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

## 5 Dadl Plaid Cymru

Dechreuodd yr eitem am 16.58

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5822 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod unrhyw gynnydd yn y grant bloc sy'n deillio o gynnydd yng ngwariant iechyd Llywodraeth y DU, yn cael ei fuddsoddi yng ngwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol Cymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 11 | 31 | 52 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y Gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod pwysigrwydd buddsoddi mewn lefelau diogel staff nyrsio sy'n cael effaith sylweddol ar ofal cleifion a recriwtio a chadw staff.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cydraddoldeb ar gyfer gofal iechyd meddwl yn flaenoriaeth ar gyfer buddsoddi yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn y dyfodol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gwella mynediad i feddygon teulu yn flaenoriaeth ar gyfer buddsoddi yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn y dyfodol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5822 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod unrhyw gynnydd yn y grant bloc sy'n deillio o gynnydd yng ngwariant iechyd Llywodraeth y DU, yn cael ei fuddsoddi yng ngwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol Cymru.

2. Yn cydnabod pwysigrwydd buddsoddi mewn lefelau diogel staff nyrsio sy'n cael effaith sylweddol ar ofal cleifion a recriwtio a chadw staff.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cydraddoldeb ar gyfer gofal iechyd meddwl yn flaenoriaeth ar gyfer buddsoddi yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn y dyfodol.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gwella mynediad i feddygon teulu yn flaenoriaeth ar gyfer buddsoddi yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn y dyfodol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 11 | 26 | 52 |

**Gwrthodwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

## 6 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 17.45

**Crynodeb o Bleidleisiau**

## 7 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17.50

**NDM5819 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ffracio: Gweithredu moratoriwm ar gyfer Cymru

Daeth y cyfarfod i ben am 18.13

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 22 Medi 2015**